# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-26-08)**

## SLC216

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl:  Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2008 ("Rheoliadau 2008")

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru. Mae Rheoliadau 2008 yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd yn lle'r un bresennol (Ffigurau Poblogaeth Oedolion). Mae Rheoliadau 2008 yn diweddaru'r ffigurau poblogaeth oedolion ar gyfer pob cyngor. Defnyddir y rhain i bennu trothwy ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn ailgyfrif, lle mae hynny'n angenrheidiol, eu cyfraniadau dros dro i'r gronfa. Os na wneir y newidiadau hyn, bydd yr amcangyfrifon a wneir gan awdurdodau lleol er mwyn cyfrannu i'r gronfa gyfunol yn anghywir gan y byddant wedi'u seilio ar ffigurau poblogaeth blynyddoedd blaenorol, sydd bellach wedi newid.

### Rheol Sefydlog 15.2

### Nodwyd y pwynt a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2:-

Mae Atodlen 8, paragraff 4 (6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn ei gwneud yn ofynnol na fydd y Rheoliadau, wrth eu cymhwyso i flwyddyn ariannol benodol (gan gynnwys rheoliadau sy'n diwygio neu'n dirymu rheoliadau eraill), yn cael effaith oni bai eu bod yn dod i rym cyn 1 Ionawr yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Nodir bod Rheoliadau 2008 yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2008, a noda rheoliad 2 (1) y diwygir Rheoliadau 1992 fel a ganlyn parthed blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008. Er mwyn i 31 Rhagfyr 2008 fod yn ddyddiad cywir ar gyfer dod i rym, dylai'r dyddiad yn rheoliad 2 (1) nodi 1 Ebrill 2009 yn hytrach nag 1 Ebrill 2008, ac felly mae'n ymddangos bod amheuaeth a yw Rheoliadau 2008 "intra vires" (Rheol Sefydlog 15.2 (i)).

Gwall argraffyddol yw hwn, a deellir y caiff y ddarpariaeth wallus ei chywiro cyn i'r rheoliadau ddod i rym.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**Tachwedd 2008**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod gwall teipograffyddol yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2008 ac y dylai'r dyddiad ynddynt ddarllen 1 Ebrill 2009.  Mae'r Llywodraeth yn bwriadu dirymu ac ail-wneud y Rheoliadau cyn gynted ag y bo modd a dim hwyrach na 21 Tachwedd 2008 beth bynnag.